| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Gwerth am Arian |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Llywodraethwyr / Aelodau Cyfetholedig o'r Pwyllgorau / Staff / Myfyrwyr |

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Cam 1 EIA Polisi Gwerth am Arian* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

## Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<table>
<tr><td>Perchennog y Ddogfen:<br>Document Owner:</td><td colspan="3">Cyfarwyddwr Cyllid</td></tr>
<tr><td>Ymgynghoriad /<br>Consultation:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td rowspan="6">Dyddiad cymeradwyo /<br>Date Approved</td><td colspan="2">Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group</td><td>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:</td><td>03/09/25</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:</td><td>26/11/25</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:</td><td>-</td></tr>
<tr><td colspan="2">Corff Llywodraethu / Governing Body:</td><td>10/12/25</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:<br>Review Date:</td><td colspan="3">Mehefin 2028</td></tr>
</table>

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Polisi Gwerth am Arian**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cwmpas | 3 |
| 2. | Cyflwyniad | 3 |
| 3. | Amcanion | 3 |
| 4. | Cyfrifoldebau | 3 |
| 5. | Caffael | 4 |
| 6. | Adrodd | 4 |
| 7. | Adolygu | 4 |

1. **Cwmpas**

**1.1.** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Lywodraethwyr, aelodau cyfetholedig pwyllgorau a'r holl staff sy'n gweithio i'r Coleg.

2. **Cyflwyniad**

**2.1.** Mae Coleg Cambria yn cydnabod ei gyfrifoldeb i gyflawni gwerth am arian o'i holl weithgareddau, sut bynnag y maent yn cael eu hariannu. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i fynd ar drywydd yr economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd fel yr amlinellir yn y Strategaeth Ariannol a Chynllun Strategol. Bydd y Coleg yn ceisio mabwysiadu arfer dda ac ymgorffori egwyddorion gwerth am arian ym mhob un o'i weithgareddau.

**2.2.** Mae Gwerth am Arian yn mesur cost, yn ogystal ag ystyried ansawdd ac addasrwydd at y pwrpas i benderfynu a yw nwyddau a gwasanaethau yn werth da. Bydd y dull mwyaf effeithiol at werth am arian ar gyfer y Coleg yn cael ei gyflawni trwy edrych arno fel cysyniad eang a dull gweithredu a ddylai dreiddio trwy bob agwedd ar y sefydliad.

**2.3.** Nod y Coleg yw cael systemau ar waith i sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddarbodus (gan ddefnyddio'r isafswm adnoddau ar gyfer lefel gwasanaeth penodol), yn effeithlon (gan wneud y gorau o ddarparu o fewn lefel penodol o adnodd) ac yn effeithiol (gwneud y gweithredoedd mwyaf addas i gyflawni amcanion).

3. **Amcanion**

**3.1.** I gyflawni gwerth da am arian, mae'r Coleg wedi gosod yr amcanion hyn i'w hun:

- Integreiddio egwyddorion gwerth am arian yn y prosesau rheoli, cynllunio ac adolygu presennol.
- Mabwysiadu arfer dda gydnabyddedig lle bo hynny'n briodol.
- Ymgymryd ag astudiaethau gwerth am arian ar feysydd gweithgarwch y nodwyd sydd angen sylw, a lle disgwylir i'r adolygiad arwain at fanteision sylweddol.
- Meincnodi gweithgareddau'r Coleg yn erbyn gweithgareddau a sefydliadau tebyg eraill lle ystyrir fod hyn yn ddefnyddiol.
- Ymateb i gyfleoedd i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau.
- Hyrwyddo diwylliant o wella parhaus.
- Dangos yn weithredol i arsylwyr mewnol ac allanol ein bod yn ceisio cyflawni gwerth am arian yn yr holl weithgareddau.
- Sicrhau bod y staff i gyd yn sylweddoli bod ganddynt rwymedigaeth i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y Coleg fel rhan o'u gweithgarwch arferol.

4. **Cyfrifoldeb**

**4.1.** Mae pob aelod o staff y Coleg yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ac nid yw wedi ei gyfyngu i'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am adnoddau neu gyfrifoldebau ariannol.

**4.2.** Mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd amlwg wedi'i orfodi gan y Memorandwm Ariannol gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Memorandwm yn

disgwyl i'r Corff Llywodraethu edrych am, ac arddangos Gwerth am Arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae colegau yng Nghymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i Femorandwm Ariannol Llywodraeth Cymru nes bod fframwaith rheoleiddio Medr ei hun yn dod i rym. Yn ogystal â hynny, dylai'r Corff Llywodraethu barhau i adolygu ei drefniadau rheoli'r holl adnoddau sydd dan ei reolaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio materion gwerth am arian yn rheolaidd o dan ei gylch gorchwyl a gytunwyd arno.

**4.3.** Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, dan y Cod Ymarfer Archwilio, a'i gylch gorchwyl ei hun, fodloni ei hun bod trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae gofyn i'r pwyllgor rannu ei farn am y trefniadau i'r Corff Llywodraethu yn ei adroddiad blynyddol.

**4.4.** Disgwylir i'r Archwilwyr Mewnol i gynnal yr holl archwiliadau mewn modd sy'n diwallu amcanion y polisi Gwerth am Arian. Dylai ystyriaethau Gwerth am Arian ddylanwadu ar gwmpas y rhaglen archwilio flynyddol a chwmpas yr archwiliadau unigol. Bydd y Coleg yn comisiynu astudiaethau gwerth am arian penodol gan yr Archwilwyr Mewnol pan fo angen.

**4.5.** Mae gan y Tîm Uwch Reoli gyfrifoldeb weithredol i roi trefniadau ar waith er mwyn sicrhau Gwerth am Arian. Mae'r Tîm Uwch Reoli hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Corff Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am faterion Gwerth am Arian.

**4.6.** Mae gan reolwyr y cyfrifoldeb gweithredol i gynnal ymwybyddiaeth arferion da yn eu maes gweithredu eu hunain, ac i sicrhau fod y rhain yn cael eu dilyn yn briodol.

**4.7.** Dylai'r holl staff ymdrechu i geisio a chyflawni Gwerth am Arian ym mhob gweithgaredd, ac i dynnu sylw rheolwyr at unrhyw gyfleoedd i wella.

## 5. <u>Caffael</u>

**5.1.** Elfen bwysig o ymrwymiad y Coleg i gyflawni Gwerth am Arian yw'r ymgyrch o gael nwyddau a gwasanaethau sy'n darparu'r ansawdd priodol am y pris gorau ar delerau addas. Dyma gyfrifoldeb yr adran Caffael yn bennaf, sy'n rhoi arweiniad i ddeiliaid cyllideb am sut i gael y gwerth gorau am arian wrth brynu.

**5.2.** Lle bo'n bosibl, mae nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael o gontractau consortiwm prynu sector cyhoeddus priodol. Profwyd y contractau hyn yn llawn yn y farchnad gan fodloni'r holl ddeddfwriaeth gaffael briodol a sicrhau bod y Coleg yn elwa o brisiau cystadleuol oherwydd y darbodion maint.

**5.3.** Rhaid cynnal cydymffurfiaeth bob amser gyda'r canllawiau a nodwyd yn y Polisi Caffael a'r Rheoliadau Ariannol. Mae'r Polisi Caffael a'r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Diwygio Caffael 2023 (PRA2023) a ddaeth i rym o fis Chwefror 2025.

## 6. Hysbysu

**6.1.** Bydd adroddiad blynyddol Caffael yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Tymor yr Hydref y Pwyllgor Archwilio a Risg. Bydd yr adroddiad hwn yn gosod rhaglen meysydd i'w hadolygu ac amserlenni, crynodeb o'r adolygiadau a gyflawnwyd ac yn tynnu sylw at weithgareddau sy'n parhau i arddangos Gwerth am Arian.

## 7. Adolygiad

**7.1.** Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd gydag unrhyw ddiwygiadau a gynigir yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i gael eu cymeradwyo.